
**<u>Fforwm Cyllideb 14 Mehefin 2023 - Diweddariad Balansau Ysgolion</u>**

**Cefndir**

Roedd balansau ysgolion yn gyfanswm o rhwng £2M a £3M am nifer o flynyddoedd, tan fis Mawrth 2020 pan gwympodd balansau i £839k yn gyffredinol. Ar yr adeg honno roedd pryderon y gallai ysgolion syrthio i ddiffyg cyllidebol ac y gallai balansau ysgolion yn gyffredinol syrthio i sefyllfa o ddiffyg.

Fodd bynnag, roedd effaith pandemig COVID-19 yn ffafriol ar falansau ysgolion oherwydd cau ysgolion i ddechrau, a'r swm helaeth o gyllid grant ychwanegol wnaed ar gael gan Lywodraeth Cymru. Erbyn mis Mawrth 2021, roedd balansau ysgolion wedi cynyddu o £839,000 i £6.3M, ac erbyn mis Mawrth 2022 roedd balansau wedi cynyddu ymhellach i £12.8M yn gyffredinol.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, tynnodd ysgolion ychydig dros £6M o'r balansau i ateb gwariant 2022/23 ar ben y cyllidebau blynyddol. O ganlyniad, gostyngodd balansau ysgolion i £6.7M erbyn 31 Mawrth 2023.




Mae ysgolion yn dal i weithio ar baratoi cyllidebau a chynlluniau adfer ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, ac nid oes rhagamcan alldro ar gyfer mis Mawrth 2024 ar gael eto, ond mae'n werth nodi y bydd balansau ysgolion yn cael eu disbyddu cyn bo hir os bydd angen i ysgolion dynnu arnyn nhw ym mlwyddyn ariannol 2023/24, yr un lefel o arian oedd ei angen i gydbwyso 2022/23.

**<u>Sefyllfa derfynol 2022/23</u>**

- Cyfanswm balansau net ysgolion oedd £6.7M ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, £2.68M yn y sector cynradd, £466k ysgolion 3-19, £2.96M yn y sector uwchradd a £575k ysgol arbennig.
- Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/23, roedd 9 (17%) o ysgolion mewn diffyg ariannol. Roedd y diffygion unigol yn amrywio o £6k i £588k. Cyfanswm gwerth yr holl ddiffygion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oedd £1.15M.
- Diweddodd 8 o 44 ysgol gynradd (18%) y flwyddyn mewn sefyllfa o ddiffyg.
- Diweddodd 1 o 7 ysgol gynradd (14%) y flwyddyn mewn sefyllfa o ddiffyg.
- Roedd balansau net ysgolion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn 6% o gyfanswm y gyfran gyllideb.

- Fe wnaeth 32 o ysgolion orffen gyda balansau mwy na 5% o'r gyfran gyllideb a 10 ysgol gyda balansau dros 10% o'r gyfran gyllideb.